Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Cam-drin Domestig, 2022 i 2023

Gorffennaf 2023

Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Cam-drin Domestig, 2022 i 2023

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 14(3) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021

Gorffennaf 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**Domestic Abuse Commissioner**

**2 Marsham Street**

**London SW1P 4DF**

ISBN 978-1-5286-4259-0

E02933743 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Adroddiad blynyddol y Comisiynydd Cam-drin Domestig, 2022 i 2023

## Cynnwys


**Rhagair** ... 2

**Gweledigaeth a chenhadaeth** ... 3

**Cyflawniadau nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf** ... 4

**Mapio cymorth sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig** 4

**Gŵyl Ymarfer** ... 5

**Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022)** ... 6

**Datblygu trosolwg** ... 7

**Galw am gymorth i fudwyr sy'n dioddef ac yn goroesi cam-drin domestig** ... 8

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod** ... 8

**Darparu Gwasanaethau Cam-drin Domestig Iedled Cymru a Lloegr** ... 9

**Cyfiawnder Teuluol** ... 9

**Goroeswyr mudol** ... 9

**Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig** ... 10

**Plant a Phobl Ifanc** ... 10

**Cyfiawnder Troseddol** ... 10

**Sut rydym yn gweithio** ... 11

**Rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig** ... 11

**Ymgysylltu â goroeswyr** ... 11

**Bwrdd Cynghori** ... 12

**Gweithio gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol, partneriaid lleol a llywodraeth genedlaethol** ... 13

**Ein tîm** ... 16

**Cyllideb a Gwariant 2022/23** ... 18

**Atodiad 1** ... 18

**Adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021** ... 18

***Functions of Commissioner*** ... 19

***Framework document*** ... 22

***Advisory Board*** ... 23

***Strategic plans and annual reports*** ... 24

***Duties of public authorities in relation to Commissioner*** ... 25

***Disclosure of information*** ... 28

***Miscellaneous and supplementary*** ... 29

## Rhagair

Mae digwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at effaith cam-drin domestig a'r angen am Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig cryf er mwyn nodi cam-drin a sicrhau bod yr holl ddioddefwyr a goroeswyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Pan fydd gennym 2.4 miliwn o bobl yn dweud eu bod wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae'n rhaid i ni ariannu llwybrau cadarn i gymorth. Mae'n hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r drosedd hon sy'n cael effaith mor ddifrifol ar gynifer o bobl. [1]

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fy adroddiad blynyddol cyntaf ers derbyn fy mhwerau statudol ym mis Tachwedd 2021, ar ôl i'r Ddeddf Cam-drin Domestig fynd drwy'r Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi data mapio arloesol a oedd yn dangos yr anghydraddoldebau enfawr i oroeswyr sy'n ceisio cael gafael ar wasanaethau cam-drin domestig ledled Cymru a Lloegr. Amlygodd raddau'r anghyfartaledd o ran lefel y gwasanaethau cam-drin domestig rhwng ardaloedd, a rhwng grwpiau gwahanol o ddioddefwyr a goroeswyr, gan roi sylfaen gadarn y mae'n rhaid i asiantaethau cenedlaethol y llywodraeth a rhai lleol gydweithio ohoni er mwyn darparu pecyn cadarn o gymorth i bob goroeswr. Dangosodd y data mapio yn glir hefyd fod gwasanaethau arbenigol yn effeithiol wrth alluogi dioddefwyr a goroeswyr i deimlo'n fwy diogel a bod ganddynt fwy o reolaeth ar eu bywydau a bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr a goroeswyr o gymunedau wedi'u lleiafrifoli am gael cymorth sy'n cael ei ddarparu 'gan a thros' eu cymuned eu hunain.

Gan adeiladu ar y penderfyniad hwn, gwnaethom gynnal ein Gŵyl Ymarfer gyntaf, gan ddwyn mwy na 400 o bobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig ynghyd, er mwyn rhannu a deall sut mae modd ysgogi newid drwy bartneriaethau ac ymateb cydgysylltiedig i gam-drin domestig.

Rydym hefyd wedi gwneud cryn waith i sicrhau y caiff Mecanwaith Goruchwylio ei sefydlu yn y Llys Teulu dros y flwyddyn nesaf er mwyn ymgorffori diwylliant o ddiogelwch ac amddiffyn rhag niwed i ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys plant, yn ogystal â Mecanwaith Goruchwylio Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o'r trychinebau hyn gyda'r nod o atal marwolaethau yn y dyfodol.

Erys y ffaith fod llawer gormod o bobl yn methu â chael y cymorth sydd ei angen arnynt, a chaiff cyfleoedd eu colli i nodi cam-drin domestig ac atal niwed pellach.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld methiannau difrifol yn ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys yr ymateb i gam-drin domestig a gyflawnir gan aelod o'r heddlu ei hun. Eleni, cynhaliais ymgyrch lwyddiannus dros ystyried cam-drin domestig yn benodol yn y diffiniad o drais difrifol yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022). Mae hyn yn nodi

[1] Domestic abuse in England and Wales overview - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

rhywfaint o gynnydd yn y ffordd y mae partneriaid lleol yn cydweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn i ailennyn hyder y cyhoedd yn y system, a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i mi a fy nhîm dros y flwyddyn nesaf.

Un o fy mhenderfyniadau cadarn yw sicrhau cymorth i oroeswyr mwyaf ymylol cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys goroeswyr mudol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cyhoeddi tystiolaeth newydd ar y ffordd y gall y Llywodraeth wella cymorth i bob dioddefwr a goroeswr mudol.

Wrth symud ymlaen, rwy'n annog y Llywodraeth i achub ar y cyfle unigryw a gyflwynir gan y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau arbenigol a ddarperir yn y gymuned a gwasanaethau statudol i bawb sy'n dioddef cam-drin domestig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl wasanaethau arbenigol sydd wedi gweithio gyda mi a fy nhîm dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â gwasanaethau statudol, swyddogion y llywodraeth (yn enwedig yr Uned Cam-drin Rhyngbersonol a'r tîm nawdd yn y Swyddfa Gartref) ac aelodau o'm bwrdd cynghori.

Yn anad dim, hoffwn ddiolch i'r holl bobl hynny sydd wedi dioddef cam-drin domestig am gymryd yr amser i rannu eu profiadau â ni – o ymdrin â'r systemau cyfiawnder troseddol a theuluol, i'w gallu i gael gafael ar wasanaethau arbenigol. Mae eich cyfraniadau yn amhrisiadwy ac mae'n rhaid iddynt fod wrth wraidd popeth a wnawn.

## Gweledigaeth a chenhadaeth

Ni waeth pwy ydych na ble rydych yn byw, dylai fod ymateb cryf a chynhwysfawr i gam-drin domestig.

Fy ngweledigaeth yw byd lle mae dioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys plant, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo ei angen arnynt, ni waith pwy ydynt na ble maent yn byw.

Mae pob rhan o gymdeithas – o asiantaethau statudol, i gyflogwyr, i ddiwydiant preifat ac aelodau o'r cyhoedd – yn cydnabod ac yn deall cam-drin domestig ac yn chwarae rôl wrth geisio ei atal a mynd i'r afael ag ef.

Mae camau yn cael eu cymryd i atal cam-drin domestig, drwy ymyrryd yn gynnar, cefnogi plant a phobl ifanc a gweithio gyda chyflawnwyr er mwyn tarfu ar eu hymddygiad a'i newid.

Drwy wneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, bydd fy Swyddfa yn creu'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys pa ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag achosion, yn atal cam-drin domestig, ac yn helpu dioddefwyr a goroeswyr i ymdopi ac adfer. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ryw, deall bod cam-drin domestig yn fath o Drais yn Erbyn Menywod a Merched a chydnabod effaith rhyw ar ddynion a menywod.

Fel arweinydd agweddau, fy nod yw dylanwadu ar bolisi ac arferion a'u llywio yn lleol ac yn genedlaethol, gan godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ac ystyried bod arfer gorau yn arfer cyffredin.

Fel corff statudol annibynnol, mae fy Swyddfa yn defnyddio tystiolaeth i ddadlau dros newid a dwyn llywodraeth leol a chenedlaethol i gyfrif fel cyfaill beirniadol a ffynhonnell arbenigedd a berchir.

Fel sefydliad cydweithredol a phragmatig, mae'r Swyddfa yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol, gyda rhanddeiliaid mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, gyda seneddwyr a chyda dioddefwyr a goroeswyr eu hunain er mwyn sicrhau newid.

## Cyflawniadau nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf

### Mapio cymorth sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig

Yn gynharach eleni, cyhoeddais adroddiad mapio arloesol yn dangos graddau'r anghyfartaledd o ran lefel y gwasanaethau cam-drin domestig rhwng ardaloedd, a rhwng grwpiau gwahanol o ddioddefwyr a goroeswyr – gan olygu bod y rheini sy'n dioddef cam-drin domestig yn wynebu ‘loteri cod post’ ar gyfer cael gafael ar fathau penodol o gymorth.

Ymgysylltodd fy swyddfa â mwy na 4,000 o ddioddefwyr a goroeswyr, mwy na 500 o ddarparwyr gwasanaethau a thros 150 o gomisiynwyr lleol er mwyn mapio'n gynhwysfawr y cymorth roedd dioddefwyr am ei gael, a oeddent yn gallu cael gafael arno a ble roedd gwasanaethau wedi'u lleoli ledled Cymru a Lloegr.

Er i'r dioddefwyr a'r goroeswyr a gwblhaodd ein harolwg nodi mai mynediad at gwnsela a gwasanaethau therapiwtig roeddent am ei gael fwyaf, dyma lle gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng gwahanol rannau o Gymru a Lloegr, gyda gwahaniaeth o 21 pwynt canran rhwng yr ardal uchaf a'r ardal isaf. Roedd cryn amrywiaeth rhwng gallu dioddefwyr a goroeswyr i gael gafael ar ddarpariaeth iechyd meddwl hefyd: gallai 47 y cant gael gafael ar wasanaeth o'r fath yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, o gymharu â 31 y cant yn Ne-orllewin Lloegr. Dim ond 7 y cant o ddioddefwyr a goroeswyr a ddywedodd eu bod wedi cael y cymorth roedd ei eisiau arnynt i helpu i newid ymddygiad eu cyflawnwr atynt.

Dangosodd ein hymchwil fod dioddefwyr a goroeswyr Du ac wedi'u lleiafrifoli yn ei chael hi'n arbennig o anodd cael gafael ar y cymorth roedd ei angen arnynt i deimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi. Roedd bylchau hefyd yn y gwasanaethau a oedd ar gael i roi cymorth i oroeswyr mudol Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

Dywedodd goroeswyr gwrywaidd wrthym am eu hanawsterau wrth geisio cael gafael ar gymorth a chefnogaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg yn dweud bod cael gafael ar help yn anodd neu'n anodd iawn.

Roedd cael cymorth i blant yn anodd tu hwnt hefyd, ac roedd yn amlwg nad oedd gan sefydliadau'r capasiti i ateb y galw. Dim ond 29 y cant o ddioddefwyr a

goroeswyr a oedd am gael cymorth i'w plant a ddywedodd wrthym eu bod wedi llwyddo i'w gael. Hefyd, nododd grwpiau ffocws a oedd yn rhan o'r ymchwil hon y rhwystrau penodol sy'n atal pobl hŷn rhag cael gafael ar gymorth, lle mae dioddefwyr a goroeswyr hŷn yn wynebu mwy o ynysu cymdeithasol o bosibl oherwydd rhwydweithiau cymorth sy'n mynd yn llai ac yn llai, problemau iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl cynyddol, a bod yn agos i'w camdriniwr drwy'r amser ar ôl ymddeol.

## Gŵyl Ymarfer

***'Yr Ŵyl yn ei chyfanrwydd fu'r gynhadledd fwyaf trefnus, ysgogol ac addysgiadol i mi ei mynychu yn ystod fy 40 mlynedd fel nyrs gyda'r GIG!''***

***'Ysbrydoledig, darostyngol, egnïol a phwerus!'***

Ym mis Mawrth, deuthum â mwy na 400 o bobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig ynghyd ym Manceinion am yr Ŵyl Ymarfer gyntaf erioed. Rhoddodd hyn gyfle i ddwyn pobl ynghyd i rannu a deall sut mae modd ysgogi newid drwy bartneriaethau ac ymateb cydgysylltiedig i gam-drin domestig. Roedd yr Ŵyl Ymarfer yn canolbwyntio ar arloesi, cydweithredu ac arferion da mewn perthynas â materion y dywedodd goroeswyr wrthym sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys dulliau adfer hirdymor cyfannol, comisiynu sefydliadau 'Gan a Thros' arbenigol ac ymgorffori ymatebion cam-drin domestig ym mhob rhan o'r system gofal iechyd, i enwi ond rhai.

***'Roedd y sesiwn plant fel dioddefwyr yn anhygoel – gadewais gyda thân yn fy mol i ysgogi newid!'***

Roedd sesiynau allweddol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â hiliaeth o fewn ymatebion cam-drin domestig; beth mae ystyried plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain yn ei olygu'n ymarferol; creu system Llys Teulu gyfiawn a sut i sicrhau bod llais goroeswyr yn rhan ganolog o wella'r ymateb i gam-drin domestig.

***'Roedd y digwyddiad yn wych – rydym wedi creu cysylltiadau a datblygu syniadau a phrosiectau o ganlyniad ac rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu datrys rhai problemau a dileu rhai rhwystrau o ganlyniad i gysylltiadau.'***

Ategwyd ein prif sesiynau gan berfformiadau gair llafar, arddangosfa ffotograffiaeth, artist ysgrifellu byw yn cofnodi cynnwys, a chlustffonau i wrando ar leisiau goroeswyr yn siarad am eu profiadau.

Dangosodd cyfres o sesiynau grŵp arferion da ar draws amrywiaeth o themâu, gan siarad, nid yn unig am y gwasanaethau neu'r dulliau o'u darparu, ond ystyried yn onest bwysigrwydd trefniadau partneriaeth a'r angen am ymateb cymunedol cydgysylltiedig cryf ym mhob maes. Trafodwyd pynciau a ddaeth i'r amlwg fel blaenoriaethau pwysig i oroeswyr drwy ein gwaith mapio ac ymgysylltu, gan gynnwys dulliau adfer hirdymor cyfannol, comisiynu sefydliadau 'Gan a Thros' arbenigol ac ymgorffori ymatebion cam-drin domestig ym mhob rhan o'r system gofal iechyd, i enwi ychydig yn unig.

***'Fel Awdurdod a Phartneriaeth, rydym bellach yn dod â phobl ynghyd i ystyried cynnal Cronfa leol i'r Rhai Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus am gyfnod prawf'.***

Creodd ein Cyfnewidfa Syniadau le i gynrychiolwyr gysylltu â sefydliadau o bob cwr o Gymru a Lloegr a nodwyd gennym fel rhai arloesol a blaengar. Roedd y cyfle hwn i rwydweithio a dysgu yn cynnwys stondinau a arweiniwyd gan asiantaethau o sefydliadau statudol a gwirfoddol amrywiol.

### Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022)

Y llynedd, arweiniais ymgyrch lwyddiannus, ar y cyd â nifer o gymheiriaid, i ddiwygio'r diffiniad o drais difrifol yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022) er mwyn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol at ddiben y Ddyletswydd Trais Difrifol i wneud yn glir i ardaloedd lleol y dylent gael eu cynnwys yn eu strategaethau atal. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau iechyd, ysgolion ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill gydweithio i fynd i'r afael â thrais difrifol a'i atal, gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy'n dioddef ac yn cyflawni troseddau. Mae cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol yn y ddyletswydd yn anfon neges gref i heddluoedd ac asiantaethau statudol lleol ledled y wlad am bwysigrwydd gweithredu'n gynnar i atal cam-drin domestig ac mae'n helpu i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn gyson.

Yn ogystal â gweithio i ddiwygio'r ddeddfwriaeth, rwyf hefyd wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'r llywodraeth i sicrhau bod y canllawiau statudol yn adlewyrchu nod y ddeddfwriaeth gysylltiedig ac yn cyfleu pwysigrwydd ystyried cam-drin domestig o fewn y Ddyletswydd Trais Difrifol, oherwydd y lefel uchel gyson o niwed difrifol ledled Cymru a Lloegr;  y gydberthynas rhwng cam-drin domestig a thrais difrifol mewn mannau cyhoeddus; a'r cyfle i sicrhau gwell cydweithrediad, ymateb system a chanlyniadau pan gaiff cam-drin domestig ei gynnwys yn y diffiniad o drais difrifol.

Rwyf hefyd wedi annog camau i ystyried cam-drin domestig ymysg Unedau Lleihau Trais presennol, gan gynnal cyfarfodydd bord gron gydag Unedau Lleihau Trais yn ystod haf 2022 ac ymweld â'r Unedau Lleihau Trais yn Northumbria, Nottingham a Chymru. Cymerais ran mewn ymweliad ar y cyd ag Uned Lleihau Trais Gorllewin Canolbarth Lloegr yn 2023 hefyd, gyda'r Comisiynydd Plant, er mwyn gweld ymarfer i feithrin partneriaethau lleol a chomisiynu ymyriadau cynnar mewn perthynas â cham-drin domestig.

*"Introducing a Serious Violence Duty will improve wholesale understanding of the drivers of serious violence and help prevent future crime and tragedy. It will mean that police, government, and health bodies must collaborate locally, so that they can develop more holistic strategies to protect people from harm, including through early intervention…The change to the Serious Violence Duty will be made via an amendment to the Police, Crime, Sentencing and Courts Bill, following careful*

*consideration and widespread support from campaigners – including the Domestic Abuse Commissioner." Y Swyddfa Gartref (2021)*[2]

## Datblygu trosolwg

### *Cyfiawnder Teuluol*

Mae cam-drin domestig yn fater canolog mewn achosion plant cyfraith breifat yn y Llys Teulu. Awgryma'r dystiolaeth fod honiadau o drais domestig yn bresennol mewn hanner yr achosion o'r fath o leiaf, a chanfu'r astudiaeth ddiweddaraf gan Cafcass fod honiadau o gam-drin domestig mewn 62% o achosion.[3] Serch hynny, canfu adroddiad Panel Niwed Llysoedd Teulu y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, broblemau strwythurol difrifol yn y ffordd roedd: honiadau o gam-drin domestig yn cael eu trin; risg a niwed posibl i blant yn cael eu hasesu; ac roedd goroeswyr eu hunain yn cael eu trawmateiddio drachefn gan broses y llys.[4] Cadarnhawyd y problemau hyn yn fy ngwaith ymgysylltu â goroeswyr, a phroblemau yn system y Llys Teulu oedd un o'r materion a godwyd amlaf.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, CAFCASS Cymru a CAFCASS Lloegr, Bwrdd Plant a Phobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, a'r Farnwriaeth. Rwyf hefyd yn aelod o Grŵp Polisi Arloesi ac Effeithlonrwydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â chyfiawnder teuluol, yn ogystal â Grŵp Dysgu a Gwella CAFCASS. Rwyf hefyd wedi cydgysylltu â'r National Council of Juvenile and Family Court Judges ar waith codio enghreifftiol yn yr UD.

O fewn swyddogaeth ymchwil fy swyddfa, rwyf wedi creu tîm bach a gaiff ei arwain gan ymchwilydd academaidd arweiniol allanol er mwyn treialu Mecanwaith Monitro Llysoedd Teulu, sef un o ymrwymiadau allweddol adroddiad Panel Niwed Llysoedd Teulu y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Caiff y Mecanwaith Monitro Llysoedd ei dreialu mewn tair ardal llysoedd er mwyn casglu data ar y ffordd yr ymdrinnir â cham-drin domestig yn y Llys Teulu, nodi sut y caiff dioddefwyr a goroeswyr eu cefnogi a galluogi'r Llywodraeth, asiantaethau a system y llysoedd ei hun i nodi ac amlygu problemau yn well er mwyn mynd i'r afael â nhw.

### *Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig*

O fewn y tîm Ymarfer a Phartneriaethau, rwyf wedi sefydlu Mecanwaith Goruchwylio Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig, sy'n ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Cam-drin Domestig y Llywodraeth. Bydd y Mecanwaith Goruchwylio Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig yn dwyn argymhellion o Adolygiadau o Laddiadau Domestig (ac adolygiadau perthnasol eraill) ynghyd er mwyn helpu ardaloedd lleol i roi camau gweithredu ar waith ac uwchgyfeirio unrhyw broblemau mwy strwythurol

---

[2] [Domestic abuse and sexual offences to be treated as seriously as knife crime - GOV.UK (www.gov.uk)]
[3] Adrienne Barnett (2020), Domestic abuse and private law children cases, A literature review, 20; Cafcass and Women's Aid; CAFCASS, Women's Aid (2016), Allegations of domestic abuse in child contact cases.
[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mehefin 2020), Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat.

sy'n gysylltiedig â gweithredu. Bydd hefyd yn nodi ac yn dadansoddi themâu allweddol er mwyn dysgu gwersi o bob rhan o Gymru a Lloegr yn well ac atal marwolaethau yn y dyfodol.

Fel cam cyntaf yn y gwaith hwn, rwyf wedi comisiynu dadansoddiad o argymhellion Adolygiadau o Laddiadau Domestig gan asiantaethau statudol, a gynhyrchir gan sefydliad ymchwil HALT drwy Brifysgol Manceinion. Bydd y gyfres hon o adroddiadau yn dwyn ynghyd themâu allweddol o Adolygiadau o Laddiadau Domestig ar gyfer asiantaethau statudol penodol a bydd pedwar adroddiad yn ymdrin ag argymhellion ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Cymdeithasol Plant, gwasanaethau iechyd a'r heddlu.

Ar ôl i'r Mecanwaith Goruchwylio Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig gael ei sefydlu, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn nodi canfyddiadau allweddol ac yn dadansoddi themâu allweddol o adolygiadau o laddiadau domestig ac adolygiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn cynnwys argymhellion i asiantaethau lleol yn ogystal â Llywodraeth genedlaethol er mwyn helpu i weithredu ar argymhellion Adolygiadau o Laddiadau Domestig a chynlluniau gweithredu er mwyn dysgu gwersi ac atal marwolaethau yn y dyfodol yn well.

### Galw am gymorth i fudwyr sy'n dioddef ac yn goroesi cam-drin domestig

Rwy'n clywed nifer dirifedi o straeon erchyll am brofiadau goroeswyr mudol agored i niwed nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Mae angen i'r llywodraeth weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, cyhoeddais adroddiad gyda'r nod o wella'r ymateb polisi i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig â statws mewnfudo ansicr a heb hawl i gyllid cyhoeddus; *Safety Before Status: The Solutions.* Am y tro cyntaf, a gan ddefnyddio ymchwil a gomisiynwyd gan Ysgol Economeg Llundain a'r Migration Observatory yn Rhydychen, amcangyfrifodd yr adroddiad hwn nifer y bobl sy'n wynebu risg o lithro drwy'r rhwyd, gan ddefnyddio data mudo ac Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. Dengys yr adroddiad fod oddeutu 32,000 o oroeswyr Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus a allai roi gwybod am y gamdriniaeth i awdurdod bob blwyddyn pe byddent yn cael mynediad at gyllid cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn nodi cyfres o argymhellion sydd â'r nod o estyn cyllid a chymorth i oroeswyr. Canfu ymchwil dadansoddi cost a budd y byddai'r argymhellion hyn yn creu manteision cyffredinol i gymdeithas a fyddai'n werth tua £2 biliwn dros 10 mlynedd.

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod

Caiff fy mlaenoriaethau eu llywio gan nifer bach o elfennau allweddol, sef:

- pa faterion sydd bwysicaf i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig;
- gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ym mhob rhan o'r sector cam-drin domestig a'r Llywodraeth ac mewn asiantaethau statudol;
- ble y gall y Comisiynydd, gyda'i sefyllfa a'i phwerau unigryw, ychwanegu'r gwerth mwyaf a sicrhau'r newid mwyaf.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol tair blynedd hefyd, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.[5]

### Darparu Gwasanaethau Cam-drin Domestig ledled Cymru a Lloegr

Mae *Clytwaith o Ddarpariaeth: Sut i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr* yn dangos y ‘loteri cod post’ sy'n bodoli o ran yr ymateb i gam-drin domestig ac, yn arbennig, y rhwystrau ychwanegol y mae dioddefwyr a goroeswyr o gymunedau wedi'u lleiafrifoli yn eu hwynebu a'r diffyg cyllid anghymesur a wynebir gan wasanaethau ‘Gan a Thros’ arbenigol. Bydd y Comisiynydd yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith hwn a defnyddio'r data hyn a'r dystiolaeth hon i bwyso er mwyn i ragor o wasanaethau gael eu darparu i bob dioddefwr a goroeswr, gan gynnwys eu plant.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, mae'r Comisiynydd yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno dyletswydd newydd drwy'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion er mwyn darparu ac ariannu gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys i blant. Dylai'r Bil gael ei ddiwygio i roi dyletswydd ar gomisiynwyr lleol i gynnal asesiadau o anghenion, ar y cyd â rhwymedigaeth newydd ar lywodraeth ganolog i ddarparu cyllid digonol i ddiwallu'r angen hwnnw. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Llywodraeth greu cronfa gyllido genedlaethol sy'n werth o leiaf £263m ar gyfer gwasanaethau ‘Gan a Thros’ dros dair blynedd. Rhaid darparu rhagor o gymorth i blant a goroeswyr mudol hefyd. Mae angen dull gweithredu rhanbarthol neu genedlaethol ar lawer o'r gwasanaethau ‘Gan a Thros’ hyn er mwyn gweithio tuag at gapasiti digonol.

### Cyfiawnder Teuluol

Problemau gyda'r Llys Teulu yw'r mater mwyaf cyffredin y mae dioddefwyr a goroeswyr yn cysylltu â'm Swyddfa yn ei gylch o hyd. Mae cryn dipyn o dystiolaeth am y materion sylweddol gyda'r Llys Teulu a'r ffordd y mae'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr ac yn diogelu plant, gan gynnwys tystiolaeth o Adroddiad Panel Niwed y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'n hadroddiad, *Improving the Family Court’s response to domestic abuse*. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad dilynol a fydd yn nodi argymhellion pellach ar sut i wella'r ymateb gan y Llys Teulu, ac yn cyhoeddi canlyniadau'r Mecanwaith Monitro Llysoedd Teulu.

### Goroeswyr mudol

Mae dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig â statws mewnfudo ansicr yn wynebu rhai o'r rhwystrau mwyaf sylweddol i gael cymorth. Nid yn unig y gall cyflawnwyr ddefnyddio eu statws mewnfudo fel ffordd o orfodi rhywun i wneud rhywbeth a'i reoli – sef cysyniad a elwir yn ‘immigration abuse’ – ond mae'r ffaith nad oes gan rai goroeswyr hawl i gael arian cyhoeddus yn golygu na allant geisio diogelwch drwy loches neu lety diogel arall. Yn yr un modd, mae diffyg ‘wal dân’ rhwng yr asiantaeth gorfodi mewnfudo a'r heddlu yn atal goroeswyr rhag rhoi gwybod i'r heddlu am y sawl sydd wedi'u cam-drin yn ddiogel. Rwyf wedi cyhoeddi dau adroddiad, sef *Safety Before Status*, gan wneud argymhellion i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr a goroeswyr gael cymorth, ni waeth beth fo'u statws mewnfudo.

[5] DAC-Strategic-Plan-2023.pdf (domesticabusecommissioner.uk)

Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector ‘Gan a Thros’ arbenigol a'r Llywodraeth ar y mater hwn.

Rwy'n galw ar y llywodraeth i ddarparu cyllid penodol ar gyfer sefydliadau gan a thros arbenigol sy'n cefnogi goroeswyr mudol cam-drin domestig, creu wal dân uniongyrchol rhwng yr heddlu a'r asiantaeth gorfodi mewnfudo, ar y cyd â systemau cofnodi diogel a llwybrau atgyfeirio wedi'u hariannu at gymorth, yn ogystal ag estyn darpariaethau'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd a'r Caniatâd Amhenodol i Aros oherwydd Trais Domestig.

### Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig

Ar ôl i'r Mecanwaith Goruchwylio Lladdiadau a Hunanladdiadau Domestig gael ei sefydlu, byddaf yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn nodi canfyddiadau allweddol ac yn dadansoddi themâu allweddol o adolygiadau o laddiadau domestig ac adolygiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn cynnwys canfyddiadau ymchwil, argymhellion i asiantaethau lleol, yn ogystal â Llywodraeth genedlaethol er mwyn helpu i weithredu ar argymhellion Adolygiadau o Laddiadau Domestig a chynlluniau gweithredu er mwyn dysgu gwersi ac atal marwolaethau yn y dyfodol yn well.

### Plant a Phobl Ifanc

Cydnabu Deddf Cam-drin Domestig 2021 blant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain am y tro cyntaf. Roedd hwn yn gam hollbwysig ymlaen ond, serch hynny, dim ond 29 y cant o ddioddefwyr a goroeswyr a ddywedodd eu bod yn gallu cael y cymorth arbenigol roedd ei eisiau arnynt ar gyfer eu plant. Felly, byddaf yn gweithio er mwyn deall yn well sut y dylid cefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a byddaf yn cyhoeddi argymhellion ar sut i wella'r ymateb hwn.

### Cyfiawnder Troseddol

Er y gall yr ymateb i gam-drin domestig fynd gryn dipyn ymhellach na'r System Cyfiawnder Troseddol ac er bod yn rhaid iddo wneud hynny, mae'n dal i fod yn rhan hanfodol o'r darlun ac mae ymateb gwael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol yn broblem gyffredin a godir gyda ni gan oroeswyr. Rydym wedi bod yn pryderu ynghylch y lleihad sylweddol yn nifer y canlyniadau cyfiawnder troseddol ers 2016, er bod mwy o droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig wedi'u cofnodi gan yr heddlu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld nifer o adolygiadau o bwys yn cael eu lansio mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir â Thrais yn erbyn Menywod a Merched o fewn heddluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adolygiad y Farwnes Casey am ymddygiad yr Heddlu Metropolitanaidd, a dynnodd sylw at fethiannau brawychus mewn perthynas â'r ymchwiliad i honiadau o gam-drin domestig a'r cymorth a roddwyd i ddioddefwyr a goroeswyr, o fewn cyd-destun ehangach o hiliaeth sefydliadol a chasineb at fenywod.

Byddaf felly yn sicrhau bod y Swyddfa yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu argymhellion a fydd yn sicrhau ymateb mwy effeithiol gan y system cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig, er mwyn cefnogi dioddefwyr yn well a dod â chyflawnwyr o flaen eu gwell. Bydd hyn yn flaenoriaeth ganolog yng ngwaith fy nhîm dros y flwyddyn i ddod.

# Sut rydym yn gweithio

## Rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig

Sefydlwyd Swydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 er mwyn rhoi arweiniad cyhoeddus ar faterion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, chwarae rôl allweddol wrth geisio goruchwylio a monitro'r ffordd y caiff gwasanaethau cam-drin domestig eu darparu yng Nghymru a Lloegr a hyrwyddo arferion gorau, gan gynnwys mewn gwaith amlasiantaethol.[6] Fy rôl yw annog arferion da wrth atal cam-drin domestig; adnabod dioddefwyr a goroeswyr, a chyflawnwyr cam-drin domestig, yn ogystal â phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt; a gwella'r diogelwch a'r cymorth a roddir gan asiantaethau a'r llywodraeth i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Mae fy sefyllfa unigryw yn fy ngalluogi i gydweithio â phob rhan o'r Llywodraeth ac asiantaethau statudol i wella eu hymateb i ddioddefwyr a goroeswyr

Mae'r Ddeddf yn rhoi set unigryw o bwerau i mi a fydd yn fy ngalluogi i geisio gwybodaeth ac yna ddwyn asiantaethau i gyfrif am eu hymateb i gam-drin domestig. Gallaf ofyn am wybodaeth, yn ogystal â mynnu bod unrhyw gorff cyhoeddus yn ymateb i'm hargymhellion yn gyhoeddus o fewn 56 diwrnod.

Nodir fy rôl a'm pwerau fel y Comisiynydd yn llawn yn Adran 2 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021). Nodir y rhain yn llawn yn Atodiad 1.

## Ymgysylltu â goroeswyr

Fel Comisiynydd, rwy'n chwarae rôl allweddol wrth godi lleisiau dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a gweithio gyda nhw i gyflwyno'r achos dros newid i lywodraeth leol a chenedlaethol. Mae lleisiau goroeswyr wrth wraidd cenhadaeth fy nhîm. Mae timau ymchwil, polisi a chyfathrebu oll yn ymgysylltu â phrofiad bywyd goroeswyr yng ngwaith y swyddfa drwy gyfarfodydd bord gron, grwpiau ffocws, sesiynau un i un a holiaduron â charfanau ehangach. Mae'r ffaith bod y tîm yn datblygu cydberthnasau â goroeswyr sy'n ymgysylltu ac, yn fwy diweddar, y broses o recriwtio ar gyfer rôl arbenigol, sef yr arweinydd ymgysylltu â phrofiad bywyd, yn sicrhau y caiff llais gwirioneddol y rheini sydd â phrofiad bywyd ei ystyried ac y bydd yn cael ei ystyried bob cam o'r ffordd.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddais "Clytwaith o Ddarpariaeth" a oedd yn cynnwys lleisiau dros 4000 o oroeswyr a gymerodd ran yn yr alwad i ymgysylltu. Cydnabu'r tîm ymchwil fod tuedd i rai carfanau beidio â chael eu cynrychioli'n ddigonol pan ddaw'r galwadau hynny drwy wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, felly trefnwyd gwaith ymgysylltu penodol ac wedi'i dargedu gyda chyfarfodydd bord gron hefyd. Cyflawnwyd hyn gyda chymorth sefydliadau yn y sector, er mwyn cyrraedd goroeswyr o gymunedau Du ac wedi'u lleiafrifoli, goroeswyr byddar ac anabl, a goroeswyr ag anawsterau dysgu. Cwblhawyd a chofnodwyd gwaith dadansoddi a chanfyddiadau'r arolwg hwnnw ochr yn ochr â'r broses o gasglu data am ddarparu gwasanaethau. Ymgorfforwyd lleisiau'r cyfranogwyr drwy'r adroddiad. Yn bwysig, aeth yr ymchwilwyr yn ôl at y grwpiau i roi adborth iddynt ar ganfyddiadau allweddol

---

[6] Y Swyddfa Gartref (2022) Cam-drin Domestig: Canllawiau Statudol tud. 128

yr adroddiad a'r ffordd roedd y swyddfa yn defnyddio'r adroddiad i ddylanwadu ar newid.

Mae fy swyddfa yn cael gohebiaeth gan gannoedd o oroeswyr drwy'r flwyddyn, ac er na chaniateir i'r swyddfa ymgysylltu ag achosion unigol, mae goroeswyr yn dewis rhannu eu straeon; yr heriau a'r rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â'r systemau presennol sy'n eu methu'n llwyr yn aml.  Gall y rhain fod yn anodd tu hwnt i'w darllen, gan fod goroeswyr yn ysgrifennu i'm swyddfa ar ôl iddynt ystyried pob ffordd arall o ddiogelu eu hunain a'u teuluoedd.

Rhwng 20 Mai 2020 ac 31 Mawrth 2023 roedd y swyddfa wedi derbyn 665 o ddarnau o ohebiaeth, y daeth y mwyafrif helaeth ohonynt yn uniongyrchol oddi wrth ddioddefwyr a goroeswyr. O waith dadansoddi rhagarweiniol, un o'r themâu mwyaf cyffredin a godwyd oedd profiad y dioddefwyr a'r goroeswyr o fewn system y Llys Teulu a sut y gellir gweinyddu cosbau am gamdriniaeth bellach drwy ddulliau cyfreithiol. Mae ymchwilwyr yn y swyddfa wrthi yn rhoi dull ar waith i ddadansoddi'r ohebiaeth hon yn systematig er mwyn nodi themâu a chanfyddiadau allweddol a safbwynt meintiol ac ansoddol.

Mae ymgysylltu â goroeswyr yn hollbwysig i'n swyddfa, yn ogystal â'r rheini sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr. Ac eto, mae potensial i bobl sy’n ystyried yr hyn sy’n digwydd yn genedlaethol ac sy’n ceisio creu rhwydwaith o oroeswyr i rannu arferion da mewn perthynas â gwaith ymgysylltu ystyrlon a meithrin hyder ar y cyd wrth gefnogi camau i hyrwyddo lleisiau goroeswyr ar bob lefel o ddylanwadu.

Mae gwybodaeth helaeth am brofiadau dioddefwyr a goroeswyr yn diogelu annibyniaeth fy rôl ac yn sicrhau bod y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir. Mae hefyd yn golygu mabwysiadu dull seiliedig ar ryw o ymdrin â cham-drin domestig, gan gydnabod ei fod yn drosedd sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched a'i fod yn fath o Drais yn Erbyn Menywod a Merched. Rydym hefyd yn deall bod mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar ryw ar gyfer pob dioddefwr a goroeswr yn hanfodol, gan y bydd rhyw yn effeithio ar brofiad pob unigolyn o gamdriniaeth a'i ymdrechion i geisio cymorth. Mae dwyn cyflawnwyr i gyfrif hefyd yn elfen bwysig o hyn; a sicrhau y deuir â'r cyflawnwyr o flaen eu gwell a'u bod hefyd yn cael cymorth i newid eu hymddygiad, gan atal achosion o gam-drin yn y dyfodol.

## Bwrdd Cynghori

Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu Bwrdd Cynghori yn cynnwys hyd at 10 aelod sy'n cynrychioli amrywiaeth o ddiddordebau a meysydd arbenigedd. Rwyf wedi penodi'r unigolion canlynol i fod yn aelodau o'r Bwrdd Cynghori, er mwyn iddynt roi cyngor i mi ar fy nghyfeiriad strategol a'r ffordd orau o gyflawni fy rôl fel y'i nodir mewn deddfwriaeth. Mae'r sefydliadau aelodaeth (Imkaan, Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr a Cymorth i Ferched Cymru) hefyd wedi cael gwahoddiad i ddod â sefydliad aelodaeth gyda nhw i bob cyfarfod o'r Bwrdd Cynghori er mwyn cyflwyno persbectif rheng flaen i'r Bwrdd.

### Aelodaeth

- Dirprwy Brif Gwnstabl Maggie Blyth, Arweinydd Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched
- Mrs Ustus Knowles, Barnwr Llys Teulu Arweiniol ar gyfer Cam-drin Domestig
- Louise Gittins, Cadeirydd Bwrdd Plant a Phobl Ifanc y Gymdeithas Llywodraeth Leol
- Catherine Hinwood, Dirprwy Gyfarwyddwr, Tîm Iechyd a Chyfiawnder GIG Lloegr
- Baljit Banga, Cyfarwyddwr Gweithredol IMKAAN
- Farah Nazeer, Prif Swyddog Gweithredol Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr
- Sara Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru
- Ippo Panteloudakis, Pennaeth Gwasanaethau, Respect
- David Challen, Ymgyrchydd ym maes Cam-drin Domestig
- Yr Athro Liz Kelly, Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod, Prifysgol Fetropolitan Llundain

## Gweithio gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol, partneriaid lleol a llywodraeth genedlaethol

Mae fy Swyddfa yn ymdrechu i fod yn gydweithredol ac yn ymarferol yn y gwaith y mae'n ei wneud. Rydym yn gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol, gyda rhanddeiliaid mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, gyda seneddwyr, gweinidogion Llywodraeth Cymru ac, fel yr amlinellwyd uchod, gyda'r rheini sy'n dioddef cam-drin domestig, er mwyn sicrhau newid.

Bob mis, rwy'n cynnal cyfarfod rhithwir sy'n dwyn ynghyd sefydliadau cam-drin domestig arbenigol, gweision sifil o amrywiaeth o adrannau llywodraeth ganolog, cynrychiolwyr llywodraeth leol a chynrychiolwyr o asiantaethau cyfiawnder allweddol, gan gynnwys Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae gan y cyfarfodydd hyn swyddogaeth hanfodol o ran rhannu gwybodaeth rhwng y rhanddeiliaid allweddol hyn a helpu i lywio gwaith fy swyddfa.

Fel Comisiynydd, rwy'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ymgysylltu ag Ysgrifenyddion Gwladol, megis yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Addysg, yn ogystal â chael fy ngwahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched. Rwy'n elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu â'r Gweinidog Diogelu, y Gweinidog Dioddefwyr a'r Gweinidog Tai a Digartrefedd. Rwyf hefyd yn cadeirio'r grŵp llywio Arbenigwyr Cenedlaethol ar lety diogel ar y cyd â'r Gweinidog Tai a Digartrefedd er mwyn sicrhau y caiff Rhan 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 ei rhoi ar waith yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch-weision sifil o amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, yr Adran Addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae darparu'r cyfarfod i gyfarwyddwyr Whitehall yn fy ngalluogi i godi heriau a materion strategol ac ymateb

iddynt, ac mae cyfarfodydd un i un gyda Rhif 10 bob chwarter wedi sicrhau y caiff lleisiau dioddefwyr a goroeswyr eu clywed ar lefel uchaf y llywodraeth.

Rwy'n cynnull Grŵp Cyfeirio Strategol bach o arweinwyr o amrywiaeth o sectorau, yn chwarterol, er mwyn ysgogi syniadau, datblygu cydberthnasau traws-sector, a meithrin arweinyddiaeth mewn perthynas ag ymatebion i gyflawnwyr cam-drin domestig. Rwyf hefyd yn cadeirio grŵp llywio mewn perthynas â rhoi'r drosedd newydd, tagu nad yw'n angheuol, ar waith a gyflwynwyd gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

